


# **POLISI GWISG AC YMDDANGOSIAD DYSGWYR**

## *LEARNERS' DRESS AND APPEARANCE POLICY*

### **Ysgol Godre'r Berwyn**



*Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:* \_\_\_\_\_

*Signed on behalf of the Chair of Governors:*

*Dyddiad Cymeradwyo:*

*Date of approval*

*Dyddiad Adolygu:*

*Review date*

## 1. Cyflwyniad

Polisi'r ysgol yw fod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol pan yn mynychu'r ysgol neu pan yn mynychu digwyddiadau ble mae'r plentyn yn cynrychioli'r ysgol y tu allan i oriau arferol yr ysgol.

Seilir y polisi hwn ar y gred fod gwisg ysgol yn:

- hybu ymdeimlad o falchder o'n hysgol;
- creu ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned sydd yn perthyn i'r ysgol;
- ymarferol, taclus a thwt;
- gwneud i bob plentyn deimlo'n gyfartal o ran ymddangosiad;
- cael i'w ystyried fel dillad addas ar gyfer ysgol ac yn werth da am arian;

Mae'r polisi gwisg ysgol yn rhan greiddiol o ymroddiad yr ysgol tuag at gydraddoldeb a chynhwysiad. Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn credu fod gwisg ysgol yn galluogi i holl ddisgyblion yr ysgol rannu ymdeimlad o hunaniaeth gan ddathlu nodweddion sydd yn gyffredin i bawb, gan hefyd barchu amrywiaeth.

Os ydych yn ansicr, yna dylech gysylltu a Swyddfa'r ysgol cyn prynu gwisg.

### **Gwisg ysgol**

Nid oes gorfodaeth ar blant cynradd i wisgo gwisg ysgol. Er hyn, teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi.

### **Ffê 1 – Dysgwyr Blwyddyn Derbyn i Blwyddyn 4**

- Trowsus du/Sgert ddu (Dim leggings, jegings, jîns)
- Crys polo gwyn
- Siwmpwr chwys gyda logo'r ysgol
- Esgidiau du a sanau tywyll.

### **Ffê 2 – Dysgwyr Blwyddyn 5 - 8**

- Trowsus du / Sgert ddu
- Crys / blows gwyn.
- Siwmpwr gyda logo Ysgol Godre'r Berwyn.
- Tei Ysgol Godre'r Berwyn.
- Esgidiau du a sanau du.

### **Ffê 3 – Dysgwyr Blwyddyn 9 - 11**

- Trowsus du / Sgert ddu
- Crys / blows gwyn.
- Blazer gyda logo Ysgol Godre'r Berwyn.
- Tei Ysgol Godre'r Berwyn.
- Esgidiau du a sanau du.

### **Ged Dosbarth – Dysgwyr Blwyddyn 12 - 13**

- Trowsus du / Sgert ddu
- Crys / blows gwyn.
- Blazer gyda logo Ysgol Godre'r Berwyn.
- Tei du gyda logo Ysgol Godre'r Berwyn.
- Esgidiau du a sanau du.

## **Colur**

Nid ydym yn hyrwyddo'r defnydd o golur, ond caniateir peth colur o fewn rheswm. Bydd staff yr ysgol yn dweud wrth ddisgyblion i dynnu colur sydd yn ormodol yn eu barn hwy.

## **Gwallt**

Rydym yn disgwyl i ddisgyblion steilio eu gwallt yn daclus, ac nid mewn ffordd sydd yn denu sylw. Enghreifftiau nad yw'r ysgol yn caniatáu yw lliwio gwallt mewn lliwiau annaturiol.

## **Gemwaith**

Caniateir clustdysau 'studs' yn unig, a defnydd rhesymol o emwaith e.e clustdysau , breichledi, modrwyddau.

Am resymau iechyd a diogelwch ni chaniateir unrhyw fath o emwaith i'r wyneb.

Bydd staff yr ysgol yn dweud wrth ddysgwyr i dynnu clust-dysau os yw'r rheol yn cael ei amharchu.

## **Disgwyliadau**

- Ni chaiff unrhyw blentyn wisgo esgidiau â sodlau uchel i ddod i'r ysgol oherwydd materion iechyd a diogelwch, a'r angen iddynt fod yn blant sy'n medru rhedeg, dawnsio a.y.y.b.
- Rhaid i athrawon sicrhau bod dysgwyr yn gwisgo dillad addas i weithgareddau Addysg Gorfforol, a bod y dillad hynny yn ddiogel. Mae gan athro/athrawes hawl i wrthod disgybl gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd os nad oes ganddo/ganddi wisg ac esgidiau addas.
- Yn achlysurol, bydd gofyn i blant (yn ferched a bechgyn) glymu gwallt hir a gwisgo goglau – mewn gwrs Addysg Gorfforol neu Dylunio a Thechnoleg er enghraifft.
- Gofynnir i rieni sicrhau bod enwau eu plentyn/plant yn glir ar bob eitem o ddillad, yn enwedig cotiau a siwmperi – heb enwau, mae'n amhosibl i ni ddarganfod dillad pwy sydd wedi mynd ar goll.
- Sicrheir na fydd camwahaniaethu yn erbyn unrhyw blentyn o ran gofynion crefyddol, hil, lliw, ethnigrwydd na chenedligrwydd o ran gwisg, yn unol â Deddf Cydraddoldeb Hiliol 1976.
- Mae'n angenrheidiol i bob aelod o staff wisgo gwisg addas gan eu bod yn gweithio gyda phlant. Dylai athrawon wisgo dillad addas hefyd pan fyddant yn ymweud â gweithgareddau Addysg Gorfforol.

## **Peidio a chydymffurfio a'r disgwyliadau**

1. Athrawon dosbarth i siarad gyda'r dysgwr.
2. Cyfeirio at y Pennaeth Ffês os nad oes ymateb.
3. Cyfeirio at yr UDRh – llythyr yn cael ei yrru adref.
4. Ataliad ar ôl ysgol os nad oes ymateb
5. Gwahardd dros dro os nad oes ymateb.

Fel ysgol, mae gennym yr hawl i benderfynu beth sydd yn dderbyniol, ac sydd ddim yn dderbyniol i'w wisgo i ddod i'r ysgol.

Os oes rhesymau crefyddol yn gofyn i blentyn wisgo mewn modd arbennig, yna trafodir hyn gyda'r rhieni mewn dull sensitif a synhwyrol.

## **Introduction**

The school's policy is that all children wear a school uniform when attending school or when attending events where the child represents the school outside normal school hours.

This policy is based on the belief that school uniforms:

- promoting a sense of pride in our school;
- create a sense of being part of a community that belongs to the school;
- practical, neat and tidy;
- make all children feel equal in terms of appearance;
- be considered as suitable clothes for school and good value for money;

The school uniform policy is a core part of the school's commitment to equality and inclusion. The school's Governing Body believes that school uniforms enable all the school's pupils to share a sense of identity by celebrating characteristics that are common to all, while also respecting diversity.

If you are unsure, then you should contact the school Office before buying a uniform.

## **School Uniform**

There is no compulsion for primary school children to wear a school uniform. Despite this, it is felt that school uniforms lead to fostering pride in the school and a sense of belonging to it.

### **Phase 1 – Reception Year to Year 4 learners**

- Black trousers/Black skirt (No leggings, jeggings, jeans)
- A white polo shirt
- A sweatshirt with the school logo
- Black shoes and dark socks.

### **Phase 2 – Learners Year 5 - 8**

- Black trousers / Black skirt
- White shirt / blouse.
- Jumper with Ysgol Godre'r Berwyn logo.
- Ysgol Godre'r Berwyn tie.
- Black shoes and black socks.

### **Phase 3 – Learners Year 9 - 11**

- Black trousers / Black skirt
- White shirt / blouse.
- Blazer with Ysgol Godre'r Berwyn logo.
- Ysgol Godre'r Berwyn tie.
- Black shoes and black socks.

### **6th Form – Year 12 - 13 Learner**

- Black trousers / Black skirt

- White shirt / blouse.
- Blazer with Ysgol Godre'r Berwyn logo.
- Black tie with Ysgol Godre'r Berwyn logo.
- Black shoes and black socks.

### **Makeup**

We do not promote the use of make-up, but some make-up is allowed within reason. The school staff will tell pupils to remove make-up which they think is too much.

### **Hair**

We expect pupils to style their hair neatly, and not in a way that attracts attention. Examples that the school does not allow are dyeing hair in unnatural colours.

### **Jewellery**

Only 'studs' earrings are allowed, and reasonable use of jewellery e.g earrings, bracelets, rings. For health and safety reasons no face jewellery is allowed.

The school staff will tell learners to remove earrings if the rule is disrespected

### **Expectations**

- High-heeled shoes are not allowed due to health and safety issues - children need to be able to run, dance etc.
- Teachers must ensure that learners wear suitable, safe clothes for Physical Education activities.
  - A teacher has the right to refuse a learner to participate in any activity if he/she does not have suitable uniform and shoes.
- Occasionally, learners will be asked to tie up their long hair and wear goggles - in a Physical Education or Design and Technology lesson for example.
- Parents are asked to ensure that the names of their child/children are clear on all items of clothing, especially coats and jumpers – without names, it is impossible for us to find whose clothes have gone missing.
- It is ensured that there will be no discrimination against any child in terms of religious requirements, race, colour, ethnicity or nationality in terms of dress, in accordance with the Racial Equality Act 1976.
- It is necessary for all members of staff to wear suitable clothing as they work with children. Teachers should also wear suitable clothing when they attend Physical Education activities.

### **Not conforming to expectations**

1. Class teachers to talk to the learner.
2. Refer to the Head of Fê's if there is no response.
3. Refer to the SMT - a letter is sent home.
4. Suspension after school if there is no response
5. Temporary ban if there is no response.

As a school, we have the right to decide what is acceptable, and what is not acceptable to wear to come to school.

If there are religious reasons that require a child to dress in a particular way, then this is discussed with the parents in a sensitive and sensible manner.